# Adroddiad Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol

## 12 March 2019

## Y Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc

### 1. AELODAETH Y GRŴP A DEILIAID SWYDDI

**Cadeirydd:** **Dr Dai Lloyd AC**

**Aelodau'r Cynulliad:** **Dai Lloyd AM; Julie Morgan AC; Adam Price AC; Nick Ramsay AC; Neil Hamilton AC; Huw Irranca-Davies AC**

**Ysgrifennydd:** **Y Gymdeithas Strôc**

**Aelodau allanol eraill a'r sefydliad(au) y maent yn ei gynrychioli/eu cynrychioli:** **gweler Atodiad A**

### 2. CYFARFODYDD BLAENOROL Y GRŴP (ERS Y CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL DIWETHAF)

**Cyfarfod 1**

***Dyddiad y cyfarfod:*** 18 Medi 2018

***Yn bresennol:***

Dr Dai Lloyd AC (Plaid Cymru)
Dr Jill Newman, Cyfarwyddwr Perfformiad, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Matt O'Grady, y Gymdeithas Strôc, Swyddog Gwybodaeth Polisi ac Ymgyrchoedd, Cymru
Helen Mary Jones AC - Plaid Cymru
Mark Isherwood AC - Ceidwadwyr Cymreig
Rachel Jenkins - ABPI a Pfizer
Dr Anne Freeman OBE - Ymgynghorydd Anrhydeddus BIAB, cyn-Arweinydd Clinigol Strôc, Cymru
James White - Ymgynghorydd Strôc, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Jeannie Wyatt-Williams, Rheolwr y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Philippa Ford MBE - Rheolwr Materion Cyhoeddus a Pholisi, Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi
David Fitzpatrick - goroeswr strôc
Nick Cann - goroeswr strôc, enillydd Gwobr LAS, Aelod o Bwyllgor Cynghori Cymru a llysgennad/codwr arian ar gyfer y Gymdeithas Strôc
Daryl Harris - Seicolegydd Clinigol Ymgynghorol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Dr Fiona Jenkins - Cadeirydd Grŵp Cyflawni Strôc Cenedlaethol, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd, BIP Caerdydd a'r Fro
Helen Hak - Adran Therapyddion Galwedigaethol ar gyfer Ymarfer Niwrolegol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Stephen Davies - Cydlynydd y Grŵp Gweithredu ar Strôc
Ross Evans - Y Gymdeithas Strôc, Pennaeth Cymorth Strôc
Charlotte Nicholls - Swyddog Strôc, Swyddog Materion Cyhoeddus (Cofnodion)

Yn bresennol yng ngogledd Cymru:
Dr Jill Newman - Cyfarwyddwr Perfformiad, BIP Betsi Cadwaladr
Dr David Curran - Ymgynghorydd Strôc, BIP Betsi Cadwaladr
Judith Rees - DGM Meddygol, BIP Betsi Cadwaladr
Gareth Evans - Pennaeth Gwasanaethau Therapi, BIP Betsi Cadwaladr
Josie Wray - Matron, BIP Betsi Cadwaladr

***Crynodeb o'r materion a drafodwyd:***

Rhoddodd Dr Jill Newman gyflwyniad ar y gwaith a wnaed i bennu gofynion gweithlu'r unedau strôc hyperaciwt y gellid eu sefydlu ym Mwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn y dyfodol.

Tynnodd JN sylw at y ffaith na chafwyd unrhyw benderfyniad terfynol eto ynghylch nifer yr unedau hyperaciwt i'w sefydlu yng ngogledd Cymru ac amlinellodd yr egwyddorion sy'n cael eu defnyddio wrth ail-ddylunio unedau a'r model gwasanaeth arfaethedig. Awgrymodd sut y gallai hyn effeithio ar y gweithlu ac esboniodd ofynion y system gyfan, gan gynnwys y gofynion yn ymwneud â'r llwybr gofal ôl-aciwt.

Rhoddodd MO gyflwyniad ar y gweithlu strôc ac adsefydlu ôl-aciwt. Eglurodd fod y Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc yn ystyried y gweithlu fel rhan o'r llwybr gofal yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys y gweithlu aciwt ac ôl-aciwt, yn yr un cyfarfod. Roedd y Grŵp Trawsbleidiol wedi trafod y gweithlu strôc mewn cyfarfodydd blaenorol. Cyflwynodd ffigurau diweddaraf SSNAP ac archwiliad ôl-aciwt 2015.

Cam i'w gymryd: Y Cadeirydd i ysgrifennu at y byrddau iechyd lleol yn gofyn am ganlyniadau'r gwaith niwro-adsefydlu amlddisgyblaethol, a'r gwaith o fodelu uned hyperaciwt a ariannwyd gan y Grŵp Gweithredu ar Strôc.

## Cyfarfod 2

***Dyddiad y cyfarfod:*** 11 Rhagfyr 2018

***Yn bresennol:***

Dr Dai Lloyd AC (Plaid Cymru)
Ross Whitehead, Prif Gomisiynydd Cynorthwyol y Gwasanaethau Ambiwlans, y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys
Shane Mills, Cyfarwyddwr Ansawdd a Phrofiad Cleifion, Uned Genedlaethol ar gyfer Comisiynu Cydweithredol
Dr Jill Newman - Cyfarwyddwr Perfformiad, BIP Betsi Cadwaladr
Wendy Hooson - Uwch Swyddog Cynllunio, Betsi Cadwaladr
Dr Fiona Jenkins - Cadeirydd Grŵp Cyflawni Strôc Cenedlaethol, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau
Mike Jenkins - Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
David Fitzpatrick - goroeswr strôc
Nick Cann - goroeswr strôc, enillydd Gwobr LAS, llysgennad / codwr arian / Aelod Pwyllgor y Gymdeithas Strôc
Alexander Smith - Cymrawd Ôl-raddedig, Prifysgol Caerdydd / Y Gymdeithas Strôc
Helen Hak - Adran Therapyddion Galwedigaethol ar gyfer Ymarfer Niwrolegol, BIP Aneurin Bevan
Dr Sue Thomas - Coleg Nyrsio Brenhinol
Dr Brendan Lloyd - Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Meddygol a Chlinigol, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Nesta Lloyd-Jones - Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus, Cydffederasiwn Cymru
Stephen Davies - Cydlynydd y Grŵp Gweithredu ar Strôc
Stephen Ray - Rheolwr Partneriaeth Gofal Iechyd Cenedlaethol, Cwmni Cyhoeddus Cyfyngedig Bayer
Niki Turner - Rheolwr Rhaglen HASU, Ysbyty Llandochau
Irina Erchova - Cydymaith Ymchwil, Prifysgol Caerdydd, goroeswr strôc
Jason Killens - Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Stephen Ray - Rheolwr Partneriaeth Gofal Iechyd Cenedlaethol, Cwmni Cyhoeddus Cyfyngedig Bayer
Stephen Davies - Cydlynydd Grwpiau Gweithredu Strôc a Chyflyrau Niwrolegol
Mike Jenkins - Arweinydd Clinigol Rhanbarthol, Parafeddyg Ymgynghorol, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Marie Evans - BIP Cwm Taf, Cynllunio a Pherfformiad
Carol Bott - Cyfarwyddwr Cymru, y Gymdeithas Strôc
Katie Chappelle - Pennaeth Dylanwadu a Chyfathrebu, y Gymdeithas Strôc
Llinos Wyn Parry - Pennaeth Cymorth Strôc (Canolbarth a Gogledd Cymru), y Gymdeithas Strôc
Matt O'Grady – Y Gymdeithas Strôc, Swyddog Gwybodaeth Polisi ac Ymgyrchoedd, Cymru

Jillian Haynes – Y Gymdeithas Strôc, Cynorthwy-ydd Personol Cyfarwyddwr Cymru, cofnodion

***Crynodeb o'r materion a drafodwyd:***

Rhoddodd SM a RW gyflwyniad ar ganfyddiadau'r Rhaglen Garlam Annibynnol i Adolygu Galwadau Oren. Ymddengys bod y model yng Nghymru yn cael ei seilio mwy ar dargedau, a'i fod wedi'i gynllunio i ymateb i achub bywyd. Cytunwyd yn gyffredinol mai'r arfer gorau yng Nghymru fyddai cysoni oriau agor ee unedau anafiadau, gan fod gwasanaethau'n amrywio'n sylweddol yn ôl yr ardal. Ystyriwyd bod mesurau ansawdd gwasanaeth yn rhan hanfodol o adolygu llwybr y claf ac o weithio mewn partneriaeth â chlinigwyr eraill. Dylid cynnal archwiliadau i sicrhau nad yw amseroedd aros yn annerbyniol, a bod pob dim yn cael ei wneud i osgoi achosi niwed i oroeswyr strôc.

Trafodwyd a ddylai'r ymateb clinigol priodol ddod o fewn y categori coch neu oren.

Dywedodd KC mai nod y Gymdeithas Strôc yw gweithio gyda'r gwasanaeth ambiwlans er mwyn gosod targedau priodol i sicrhau bod y gwasanaeth yn cyd-fynd â gwasanaethau yn y DU.

Awgrymodd SM y gall targedau droi'r sylw oddi wrth y driniaeth angenrheidiol; y cwestiwn allweddol yw, beth sy'n bwysig a sut rydym ni'n ei fesur? Dywedodd MO fod y Gymdeithas Strôc yn croesawu'r mesur ar gyfer 'y digwyddiad cyfan,' ac mae'n fodlon â'r categori melyn presennol. Croesawodd hefyd yr ymgysylltiad rhagweithiol â'r rhai sy'n cynnal yr Adolygiad. Roedd, fodd bynnag, yn amau'r haeriad nad oedd dim tystiolaeth o blaid gosod targedau.

Dywedodd DF fod ei deulu wedi gorfod dibynnu'n drwm ar y gwasanaethau ambiwlans yn ddiweddar a'i fod wedi gweld rhesi o ambiwlansys yn aros i ddadlwytho cleifion y tu allan i'w ysbyty lleol droeon. Byddai profiad y claf yn gwella pe bai modd dileu'r oedi hwn.

Cam i'w gymryd: Y Cadeirydd i ysgrifennu llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet i danlinellu'r pwyntiau a drafodwyd ac i sicrhau bod Ysgrifennydd y Cabinet yn eu hystyried yn briodol.

## Cyfarfod 3

***Dyddiad y cyfarfod:*** 12 Mawrth 2019

***Yn bresennol:***

Dr Dai Lloyd AC - Plaid Cymru
Dr Phil Jones - Arweinydd Clinigol Strôc yng Nghymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Dr Shakeel Ahmad - Arweinydd Clinigol ar gyfer Strôc a Chyfarwyddwr Rhaglen Hyfforddiant ar gyfer Strôc

Dr Fiona Jenkins - Cadeirydd Grŵp Cyflawni Strôc Cenedlaethol, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau ac Iechyd
Dr Anne Freeman OBE - Canolfan Strôc Cymru
Carol Bott - Cyfarwyddwr Cymru, y Gymdeithas Strôc
Callum Hughes - Cydffederasiwn GIG Cymru
Philippa Ford MBE - Rheolwr Materion Cyhoeddus a Pholisi, Cymdeithas Siartredig y Ffisiotherapyddion
Alexander Smith - Cymrawd Ôl-raddedig, Prifysgol Caerdydd / Cymdeithas Strôc
Emma Henwood - Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus, Sefydliad Prydeinig y Galon Cymru
Niki Turner - Rheolwr Rhaglen yr Uned Strôc Hyperaciwt, Ysbyty Llandochau
Steve Ray - Rheolwr Partneriaeth Gofal Iechyd Cenedlaethol, Bayer
Carmel Donovan - Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol Integredig (Pen-y-bont ar Ogwr), Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Sandy Harding – Y Coleg Nyrsio Brenhinol
Tommy Price - Rheolwr Masnachol, Meddygaeth Fewnol, Pfizer
Elin Edwards - RNIB Cymru
Kate Chappelle - Pennaeth Dylanwadu a Chyfathrebu, y Gymdeithas Strôc
Matt O'Grady - Swyddog Gwybodaeth Polisi ac Ymgyrchoedd, Cymru, y Gymdeithas Strôc
David Fitzpatrick - goroeswr strôc
Jillian Haynes – Y Gymdeithas Strôc, Cynorthwy-ydd Personol Cyfarwyddwr Cymru, Cofnodion

Yn bresennol yng ngogledd Cymru:
Judith Rees - Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr
Maureen Barley - Ffisiotherapydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

***Crynodeb o'r materion a drafodwyd:***

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Enwebodd Katie Chappelle Dr Lloyd AC yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn nesaf. Cafodd yr enwebiad ei eilio gan nifer o Aelodau a derbyniodd Dr Lloyd y swydd.

Byddai'r Gymdeithas Strôc yn parhau i ddarparu gwasanaeth ysgrifenyddol. Byddai Jillian Haynes yn rhoi'r gorau i'w swydd ar ôl dwy flynedd a byddai Matt O'Grady yn cymryd ei le. Diolchodd Dr Lloyd i Jillian am ei chefnogaeth.

Cyflwynodd Katie Chappelle yr Adroddiad Blynyddol a'r Adroddiad Ariannol i'r Cadeirydd.

**Cyfarfod: 12 Mawrth 2019**

Rhoddodd Dr Jones gyflwyniad ar y Cynllun Cyflawni Strôc a'r gwaith a wnaed hyn yma i'w roi ar waith. Rhoddodd Dr Ahmad y wybodaeth ddiweddaraf am ffibriliad atrïaidd a'r cynnydd a wnaed o ran gwasanaethau thrombectomi i Gymru.

Holodd Ms Pippa Ford am ddyfodol y Grŵp Cyflawni Strôc a'r Grŵp Gweithredu ar Strôc ac am gyllid yn y dyfodol. Dywedodd Dr Jones nad oedd unrhyw sicrwydd y byddai'r arian yn parhau ar ôl blwyddyn ariannol 2020-21. Dywedodd Dr Fiona Jenkins fod y Prif Weithredwyr yn adolygu swyddogaeth a rolau pob un o'r grwpiau cyflawni cenedlaethol ar y prif gyflyrau, ond nad oedd canlyniad eu trafodaethau'n hysbys eto. Ychwanegodd fod canolbwyntio ar strôc yn unig wedi galluogi'r Grŵp Gweithredu ar Strôc i fod yn effeithiol. Cafwyd trafodaeth hefyd ar y cynnydd a wnaed o ran Unedau Strôc Hyperaciwt.

Cyflwynodd Matt O'Grady bapur ar y cynllun gwaith arfaethedig ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol y flwyddyn nesaf. Cynigiwyd newid fformat: yn hytrach na dewis nifer o faterion i'w hystyried drwy gydol y flwyddyn, awgrymwyd y dylid ei adolygu dim ond un mater bob blwyddyn er mwyn medru canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau penodol ee canlyniadau'r Cynllun Cyflawni Strôc ers ei gyflwyno. Cynigiwyd awgrymiadau i'w trafod.

Cytunodd yr Aelodau ar y fformat newydd ac yn 2019-20 byddai'r Grŵp yn monitro hynt trafodaethau ac yn dadansoddi'r gwelliannau a grëwyd gan y Cynllun Cyflawni Strôc.

Trafodwyd blaenoriaethau posibl yr ymchwiliad. Cytunwyd y byddai ymchwiliad y Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc i'r Cynllun Cyflawni Strôc yn canolbwyntio ar bedwar maes: 1) atal strôc, 2) gofal cyflym ac effeithiol i'r rhai sy'n cael strôc, 3) bywyd ar ôl strôc a 4) dyfodol y Cynllun Cyflawni Strôc .

Dywedodd Matt O'Grady fod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen presennol a oedd, hyd yma, yn cynnwys Dr Anne Freeman, Pippa Ford a Nicola Davis-Job, yn ogystal â chydweithwyr yn y Gymdeithas Strôc, yn agored eto i unrhyw un a hoffai gymryd rhan. Dywedodd Emma Henwood y byddai ei chydweithwyr yn Sefydliad Prydeinig y Galon yn hoffi cael eu hystyried a mynegodd David Fitzpatrick ddiddordeb hefyd.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc ym mis Mehefin a byddai'r dyddiad a'r lleoliad i'w gweld ar wefan y Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc.

## 3. LOBÏWYR PROFFESIYNOL, CYRFF GWIRFODDOL AC ELUSENNAU Y MAE'R GRŴP WEDI CYFARFOD Â NHW YN YSTOD Y FLWYDDYN FLAENOROL

Dim

# Datganiad Ariannol Blynyddol

## 12 Mawrth 2019

## Y Grŵp Trawsbleidiol ar Strôc

### Cadeirydd: Dr Dai Lloyd AC

### Ysgrifennydd: Y Gymdeithas Strôc

| | | |
|---|---|---|
| **Treuliau'r Grŵp** | Ni thalwyd treuliau | £0.00 |
| **Cost yr holl nwyddau** | Ni phrynwyd nwyddau | £0.00 |
| **Buddiannau a gafodd y grŵp neu Aelodau unigol gan gyrff allanol** | Ni chafwyd buddiannau | £0.00 |
| **Unrhyw gymorth ysgrifenyddiaeth neu gymorth arall** | Ni chafwyd cymorth ariannol | £0.00 |
| **Gwasanaethau a ddarparwyd i'r Grŵp, megis lletygarwch**<br><br>Y Gymdeithas Strôc dalodd am yr holl luniaeth | | |
| **Dyddiad** | **Disgrifiad o'r darparwr a'i enw** | **Cost** |
| 18 Medi 2018 | CH&Co – arlwywyr yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru | £35.10 |
| 11 Rhagfyr 2018 | CH&Co – arlwywyr yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru | £56.94 |
| 12 March 2019 | CH&Co – arlwywyr yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru | £40.32 |
| | **Cyfanswm y gost** | **£123.36** |